## Gwella eich darllen

- **Trwy ymarfer** mae gwella. Does dim ateb cyflym. Po fwyaf y byddwch yn darllen mwyaf i gyd bydd eich darllen yn gwella. Po fwyaf y byddwch yn darllen mewn arddull arbennig, mwyaf i gyd y bydd eich gallu i ddarllen yr arddull honno yn gwella. Po fwyaf o ymarfer a gewch mewn darllen arddull arbennig, cyflymaf i gyd y byddwch yn ei ddarllen.

- Darllenwch nid yn unig er mwyn astudio, ond er mwyn **pleser**. Os byddwch yn dechrau mwynhau darllen, byddwch yn darllen mwy.

- **Darllenwch yn uchel** pan fydd yn briodol. Weithiau, mae'n haws darllen rhywbeth yn uchel, neu gael rhywun neu rywbeth (Read & Write, NVDA, Jaws) i'w ddarllen i chi.

- Daliwch ati i ddarllen, peidiwch â gadael i air anodd eich rhwystro. Neidiwch drosto a gorffennwch y frawddeg. Ewch yn ôl at y gair a gwiriwch y diffiniad yn nes ymlaen. Gallwch ei ychwanegu at eich dalen atgoffa.

- **Y peth pwysicaf yw deall** y testun. Mae cymryd mwy o amser i ddeall ychydig, yn well na darllen yn gyflym trwy dudalennau a pheidio â gwybod dim byd.

- Trefnwch ymarfer "**cyfnewid cyfnodolion**" neu glwb llyfrau academaidd. Mae hon yn ffordd wych o'ch cyflwyno eich hun i wahanol erthyglau a phynciau.